**Equality of Opportunity Committee**

**Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

12 October 2007

Annwyl Gyfaill

Mae Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad yn cynnal ymchwiliad sy'n canolbwyntio ar weithwyr mudol, eu teuluoedd a'r cymunedau maent yn byw ac yn gweithio ynddynt.

Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad fel a ganlyn:

> Craffu ar Lywodraeth y Cynulliad a'r gwaith mae'n ei wneud i gefnogi gweithwyr mudol a'u teuluoedd, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau lleol sydd â chyfran uchel o bobl fudol yn rhan o'u poblogaeth; a
>
> Gwneud argymhellion ar y gweithredu sydd ei angen i sicrhau fod cyfleoedd cyfartal i weithwyr mudol, eu teuluoedd a'r bobl sy'n byw yn y cymunedau y maent hwy'n byw ac yn gweithio ynddynt.
>
> I wneud hynny, bydd y Pwyllgor yn :

- Edrych ar brofiadau gweithwyr mudol a'u teuluoedd yng Nghymru gan edrych yn benodol ar: amodau byw a gweithio; mynediad at wasanaethau cyhoeddus; rhwydweithio cymdeithasol
- Adnabod effaith mudo economaidd ar rai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ac ar gymunedau lleol
- Ymchwilio i effaith y fframwaith rheoli presennol sy'n llywodraethu amodau byw a gweithio gweithwyr mudol yng Nghymru.
- Tynnu sylw at esiamplau o arferion da gyda golwg ar gysylltiadau gyda chymunedau; polisïau cyflogaeth a darparu gwasanaethau.

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Gwahoddir rhai sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor yn y cyfeiriad uchod, erbyn dydd Gwener, 4 Ionawr 2008 fan bellaf. Os yn bosibl, darparwch fersiwn electronaidd yn MS Word neu fformat Rich Text, unai trwy gyfrwng e-bost at equality.comm@wales.gsi.gov.uk neu ar ddisg.

Dechreuwch eich adroddiad trwy ddarparu ychydig o wybodaeth am eich sefydliad cyn nodi eich barn a'ch profiadau mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r meysydd canlynol.

**a) Profiadau gweithwyr mudol a'u teuluoedd**

- Ydych chi'n gwybod am rwystrau a brofwyd gan weithwyr mudol a'u teuluoedd wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus? Beth yw'r prif resymau am y rhwystrau?
- Allwch chi roi esiamplau o unrhyw arferion arloesol i sicrhau fod gwasanaethau cyhoeddus yn hygyrch ac y gellir goresgyn unrhyw rwystrau?
- Allwch chi roi esiamplau o amodau da a gwael o ran gwaith a thai?
- Rhowch esiamplau os gwelwch yn dda o ddarpariaeth iaith Gymraeg a Saesneg i weithwyr mudol a'u teuluoedd yn eich ardal chi. Pa mor briodol a hygyrch yw'r ddarpariaeth hon?
- Pa gyfleoedd a gaiff gweithwyr mudol a'u teuluoedd i wneud cyfeillion ac i adeiladu rhwydweithiau cymdeithasol rhyngddynt eu hunain ac o fewn cymunedau lleol? Rhowch fanylion am unrhyw grwpiau ffurfiol neu anffurfiol neu rwydweithiau yn eich ardal chi.

**b) Effaith mudo economaidd ar gymunedau lleol**

- Beth yw'r goblygiadau o ran adnoddau i rai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd ble mae cyfran helaeth o'r boblogaeth yn weithwyr mudol a'u teuluoedd?
- Beth yw'r manteision a'r heriau i bobl mewn cymunedau lleol lle mae gweithwyr mudol yn byw ac yn gweithio?

**c) Y fframwaith rheoli**

- Sut mae deddfwriaeth gyfredol, megis The Gangmasters Licensing Act 2004, yn gweithio'n ymarferol?
- I ba raddau y mae deddfwriaeth gyfredol yn cael ei gorfodi?

**d) Esiamplau o arferion gorau**

Rhowch enghreifftiau o arferion gorau gan gynnwys :

- Brosiectau neu gynlluniau sydd wedi gwella cysylltiadau mewn cymunedau
- Polisïau cyflogaeth a chynlluniau da yn y gweithle
- Gwasanaethau cyhoeddus hygyrch a phriodol

**e) Awgrymiadau**

Beth ddylid ei wneud i wella profiadau bywyd gweithwyr mudol a'u teuluoedd a'r cymunedau y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt?

Er gwybodaeth i chi, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd cyflwyniadau gan y rhai a enwir ar y rhestr amgaeedig. **Byddai'r Aelodau'n ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr i unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u henwi ond a allai fod am gyfrannu tuag at yr adolygiad.** Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol gyda gwahoddiad agored i gyflwyno barn.

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol fod y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad gall eich ymateb ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth atodol i adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth y mae'n ei ystyried sy'n wybodaeth bersonol.

Pe digwydd bod cais am wybodaeth a gyflwynwyd dan ddeddfwriaeth y DG, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu. Gall hyn gynnwys gwybodaeth sydd wedi'i dynnu'n flaenorol gan y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn ei gyhoeddi.

Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth, ar wahân i ddata personol, yr ydych yn teimlo nad yw'n addas i'w ddatgelu'n gyhoeddus, chi ddylai nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi, a darparu dadl resymol i gefnogi hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir iawn

**Ann Jones**
**Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**